



Mae'r [Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu](#) yn ystyried a ddylid datganoli darlledu i Gymru.

Eich enw	Angharad Morgan Eleri Griffiths	Rôl	Rheolwr Polisi
Sefydliad	Mudiad Meithrin		
Cyfeiriad	Mudiad Meithrin, Y Ganolfan Integredig, Boulevard de Saint Brieuc, Aberystwyth. SY23 1PD.		
E-Bost cyswllt		Rhif ffôn cyswllt	01970 639639
			

Cefndir Mudiad Meithrin

Mudiad Meithrin yw'r prif ddarparwr gofal ac addysg cyfrwng Cymraeg yn y sector wirfoddol drwy rwydwaith genedlaethol o Gylchoedd Meithrin, Cylchoedd Ti a Fi, gofal cofleidiol a meithrinfeydd dydd cyfrwng Cymraeg. Sefydlwyd Mudiad Meithrin ym 1971. Ein prif nod yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. Credwn hefyd ei bod yn bwysig sicrhau cyfle i bob plentyn elwa o brofiadau a gweithgareddau blynyddoedd cynnar yn ei gymuned leol. Mae Mudiad Meithrin yn cynnal Cynlluniau Cyfeirio ar draws Cymru sy'n cefnogi plant ag anghenion ychwanegol yn y Cylchoedd Meithrin. Mae'r cynlluniau hyn yn cyflogi Cysylltwyr sy'n gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau a'r Cylchoedd Meithrin er budd plant a'u teuluoedd. Gall gwasanaethau'r cynlluniau gynnwys:

- Cyfle i'r plentyn chwarae a phlant eraill yn y gymuned leol.
- Cefnogaeth aelod ychwanegol o staff yn y Cylch os oes angen.
- Cyfle i drafod cefnogaeth addas i'r plentyn gyda'r Cysylltydd
- Amser rhydd i'r rhiant gyda'r sicrwydd fod plentyn yn derbyn gofal o ansawdd uchel
- Offer arbenigol
- Cyfle i'r plentyn ymuno yn yr hwyl a gwneud ffrindiau mewn awyrgylch hapus a diogel

Erbyn hyn, mae 551 o Gylchoedd Meithrin yn cynnig sesiynau gofal ac addysg ddyddiol ar gyfer plant 2 - 5 mlwydd oed a 44 meithrinfa dydd yn darparu gofal dydd llawn i blant ar draws Cymru. Mae 358 o Gylchoedd Ti a Fi ledled Cymru sy'n cynnig cyfle gwych i blant o enedigaeth hyd at oed ysgol a'u rhieni gwrdd unwaith yr wythnos. Mae'r gwasanaethau yn darparu profiadau blynyddoedd cynnar i oddeutu 19,000 o blant bob wythnos. Rydym yn

cydweithio gyda rhaglen Dechrau'n Deg i ddarparu cyfleoedd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, ac rydym yn cydweithio gyda phob Awdurdod Addysg leol i gynnig addysg rhan amser i blant 3 oed yn eu cymuned leol. Er mwyn cyflawni hyn, mae Mudiad Meithrin yn elusen gofrestrdig sy'n cyflogi dros 200 o bobl, yn staff cenedlaethol a sirol yn ogystal â mewn meithrinfeydd dydd, gyda 1560 o staff ychwanegol yn gweithio yn y Cylchoedd Meithrin. Cefnogir y cylchoedd gan rwydwaith cenedlaethol o staff proffesiynol Mudiad Meithrin sy'n eu cynghori ar amrediad o faterion er enghraifft hybu ymarfer da, hyfforddiant staff a chyswllt ag awdurdodau Lleol. Yn ogystal, mae'r Mudiad yn gweithio yn agos iawn gyda rhieni er mwyn darparu cymorth a chynghori i'w galluogi i ddatblygu a chefnogi gwaith y cylchoedd yn y cartref.

Ar sail ein gwaith a'n harbenigedd ar ddatblygiad plant yn y blynyddoedd cynnar, cynigiwn y sylwadau canlynol i'r ymgynghoriad:

Dros yr ugain mlynedd diwethaf mae'r newidiadau a welwyd ym maes darlledu cyhoeddus plant yn chwyldroadol. Gwelwyd newid sylweddol yn hygyrchedd rhaglenni plant arferai fod am ychydig oriau'r dydd yn unig i sianeli pwrpasol yn cynnig deuddeg awr y dydd (a mwy) o gynnwys. Er gwaethaf cystadleuaeth ryngwladol gref gan sianeli teledu Americanaidd megis Nickleodeon, Disney, Tiny Pop ac ati, mae sianel darlledu gyhoeddus y BBC i blant ifanc – CBeebies - wedi ennill ei le ac yn cael ei ystyried yn wasanaeth safonol sydd yn ennyn parch ac ymddiriedaeth rhieni a theuluoedd ar draws y Deyrnas Gyfunol a thu hwnt.

Daw cyfran uchel iawn o'r cynnwys o gyfandir Ewrop ac mae pwyslais amlwg ar gynnwys addysgiadol sydd yn hyrwyddo bywyd iach ym mhob ystyr y term. Mae rhyddid y BBC rhag gorfod hysbysebu hefyd yn cael ei weld fel elfen arall o'r gwasanaeth sydd yn sefyll allan o safbwynt moesol, gan nad oes yna agenda masnachol tu ôl i waith y sianel. Mae'r Comisiynwyr rhaglenni yn ymfalchïo yn eu harbenigedd datblygiad plant a gafodd gydnabyddiaeth am natur unigryw'r gwasanaeth hwn o'r cychwyn. Disgrifiwyd y sianel yn y *Financial Times* nol yn 2004 fel

'Cbeebies is a merit good: a socially desirable item that the market would not provide by itself'¹

Erbyn heddiw mae poblogrwydd y sianel yn parhau gydag arlwy amrywiol o fformatiau megis animeiddio, drama, cyflwynwyr ac ati.

Y cwestiwn sydd yn codi i ni yng Nghymru serch hynny ydy natur yr arlwy a'r cynnwys. Mae cipolwg ar y rhaglenni yn dangos yn amlwg iawn mai prin yw'r cynnwys sydd yn dod o Gymru neu sydd yn adlewyrchu profiadau bywydau Cymreig a Chymraeg yn eu holl amrywiaeth. Mae gan y sianel 3 Comisiynydd: Comisiynydd Cynnwys sef: *Uwch Gomisiynydd, Comisiynydd i Ogledd Iwerddon a'r Alban a Chomisiynydd Digidol*. Mae'r

¹ John Gapper – dyfynnwyd yn The BBC's role in the changing production ecology of pre-school television in Britain – Jeanetter Steemers 2006

ffraith nad oes yna Gomisiynydd gyda chyfrifoldeb dros Gymru yn arwain at ddiffyg sylfaenol yn arlwy'r sianel hon a methiant i sicrhau fod profiadau plant ym mhob cwr o'r DG yn cael eu parchu a'u hadlewyrchu.

Dengys cipolwg ar amserlen y sianel fod y rhaglenni a gomisiynwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn cadarnhau hyn ac fe atgyfnerthir hynny gan eu geiriau eu hunain:

The commissions include content made by CBeebies Productions based in Salford and Scotland, as well as some exciting series made by independent partners for the pre-school audience. The range of bold new commissions includes a drama which holds inclusivity and diversity at it's (sic) heart, some amazing Shakespearean story-telling as well as programming that encourages creativity and innovative thinking.²

Teimlwn ei bod yn hollbwysig parhau i ddatblygu rhaglenni a gwasanaethau eraill i blant sydd yn cyfleu ac yn trosglwyddo gwerthoedd cymunedol a diwylliannol Cymru. Wrth wirio cynnwys y sianel Saesneg am raglenni sydd yn dangos plant o Gymru neu gynnwys wedi ei greu yng Nghymru trwy gyfrwng y Saesneg, methwyd a dod o hyd i brin unrhyw esiamplau. Mae hyn yn creu anghyfartaledd ac anghysondeb yn y gwasanaeth darlledu mae plant ifanc yn ei gael yng Nghymru.

Tra bod plant sydd yn gwyllo CYW (S4C) yn cael arlwy Gymreig sydd yn parchu eu hunaniaeth a'u diwylliant, mae plant Cymru sydd yn gwyllo CBeebies yn derbyn rhaglenni heb unrhyw gyfeiriad at iaith, diwylliant, gwead cymunedol na daearyddiaeth Cymru.

Mae arlwy CYW yn ystyried anghenion addysgiadol y Cyfnod Sylfaen a'r cwricwlwm newydd dros Gymru yn ei dro wrth i hyn ddod i rym. Bydd plant Cymru sydd yn gwyllo Cbeebies yn gwyllo arlwy sydd yn seiliedig ar 'Early Years Foundation Stage' Lloegr. Mae egwyddorion reit wahanol y tu ôl i'r ddau gwricwlwm hyn (gan nodi hefyd y gwahaniaethau sydd i ddod yng nghysgod newidiadau cwricwlaidd).

Cynigwn fod rôl bwysig gan S4C i'w chwarae yn gwasanaethu Cymru. Yn ddi-os bu cyfraniad S4C ar hyd y degawdau yn allweddol i adlewyrchu Cymreictod yn ei holl amrywiaeth ac i gyfrannu at godi cenedl mewn cyfnod o newid gwleidyddol pellgyrhaeddol. Mae Cbeebies ar gael am 13 awr y dydd tra bod CYW ond ar gael am 6 awr y dydd. Mae'r diffyg cysondeb hwn yn trin plant Cymru yn wahanol yn seiliedig ar eu mamiaith neu eu dewis ieithyddol yn y cartref. Yn ddelfrydol byddai cael ail sianel i blant (Cyw o hyd neu o 6.00 tan 6.00 dyweder) yn golygu fod darpariaeth Gymraeg parhaus ar gael i rieni (fel y myrdd o sianeli plant masnachol sydd ar gael yn Saesneg).

Mae'r BBC wedi ceisio cydnabod cenedligrwydd Cymraeg trwy gynnwys 11 o gemau Cymraeg (o'i gymharu gyda 28 sydd ar gael yn Saesneg) fel rhan o'u darpariaeth ar-lein. Yn anffodus nid oes modd cyrchu'r gemau oni bai bod rhywun wedi chwilio yn benodol am y

² <https://www.bbc.co.uk/mediacentre/latestnews/2017/new-and-returning-cbeebies-commissions>

term 'Cymraeg'. Mae'n annhebygol y byddai teuluoedd ble nad yw'r Gymraeg yn famiaith yn ymwybodol o'r rhain. Gwelwn bod hyn yn colli cyfle i ddefnyddio cyfryngau plant i'w lawn botensial wrth i ni yng Nghymru weithio tuag wireddu 2050. Fel Mudiad Blynyddoedd Cynnar rydym yn cydweithio yn agos iawn gydag S4C. Maent yn cefnogi ein gwaith trwy hyrwyddo taith Gŵyl Dewin a Doti ar eu rhaglenni a defnyddio cymeriadau Cyw i gynnal y daith yn achlysurol hefyd. Mae Cyw wedi bod yn cynnwys caneuon ar thema Clwb Cwtsh yn ddiweddar a rydyn ni fel Mudiad yn ein tro yn hyrwyddo adnoddau a gwasanaeth CYW i'n haelodau ni. Er waethaf ymdrechion i gydweithio gyda CBeebies mewn modd debyg mae'r ymateb i'n datganiadau a'n cyfathrebiadau gyda nhw yn brin. Tybiwn bod eu Cylch Gorchwyl eang o orfod gwasanaethau 4 cenedl wahanol yn arwain at lai o sylw a gallu i wasanaethau plant yng Nghymru yn benodol.

Byddai datganoli darlledu yn rhoi rhyddid a chyfrifoldeb arnom ni yng Nghymru i ystyried y ffordd orau o gysoni'r gwasanaethau i blant ifanc a chadw ethos Cymreig a Chymraeg yn rhan ganolog o'r cynnig.